Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Polisi Amser i Ffwrdd ar gyfer Aelodau'r Lluoedd wrth Gefn



**ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL**

Cyhoeddwyd: Ionawr 2020     Adolygir: Ionawr 2025

# Rheoli Fersiwn

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer:

☐ Staff y Cyngor yn unig ☐ Staff seiliedig mewn ysgolion yn unig ☒ Staff y Cyngor a staff seiliedig mewn ysgolion

| Fersiwn | Newidiadau Allweddol | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|
| Ionawr 2020 | Polisi newydd | Y Cyngor |
| | | |

Gall y ddogfen hon gael ei hadolygu a'l diwygio ar unrhyw amser a heb ymgynghoriad mewn ymateb i ofynion cyfreithiol neu mewn ymateb i ofyniad sefydliadol a lle nad yw'r newidiadau yn dangos newid sylfaenol neu'n effeithio ar ysbryd neu fwriad y ddogfen.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 4
2. Beth mae'r Polisi yn ei Gynnwys ........ 4
3. Egwyddorion Arweiniol ........ 4
4. Byddino Aelodau wrth Gefn ........ 5
5. Apeliadau am Eithrio neu Ohirio ........ 5
6. Hawliau Aelodau wrth Gefn yn ystod Byddino ........ 5
7. Dadfyddino Aelodau wrth Gefn ........ 6
8. Cymorth Ariannol ........ 7
9. Ôl-ofal ........ 8
10. Gwybodaeth Bellach ........ 9
11. Adolygu'r Cynllun ........ 9

Atodiad1: Siart Llif y Broses (yn Saesneg) ........ 10

Atodiad 2: Aelodau wrth Gefn – Cais am Ganiatâd am Absenoldeb ........ 11

**NODIADAU**

Cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu ar sail gorfforaethol ond rhoddwyd ystyriaeth I ofynion gweithredol ysgolion. Caiff y cynllun ei argymell I Gyrff Llywodraethu ar gyfer ei fabwysiadu. Dim ond i ysgolion lle mabwysiadwyd polisïau a gweithdrefnau a argymhellwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a lle mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Datblygu Sefydliadol mewn grym ar y pryd y gellir rhoi cefnogaeth wrth reoli materion yn gysylltiedig â deunydd pwnc y cynllun hwn.

**Geirfa**

Mae **Aelodau Rheolaidd Wrth Gefn y Lluoedd Arfog** yn aelodau llawn-amser blaenorol o'r Lluoedd Arfog. Gallant ddal fod yn agored i gael eu galw allan am nifer o flynyddoedd ar ôl i'w gwasanaeth milwrol ddod i ben, yn dibynnu ar eu hoedran, cyfnod y gwasanaeth gwreiddiol a'r sgiliau sydd ganddynt.

Mae **Aelodau Gwirfoddol Wrth Gefn y Lluoedd Arfog** yn cynnwys aelodau sifil sy'n derbyn ymrwymiad hyfforddiant blynyddol ac a gaiff eu galw allan i atodi'r Lluoedd Parhaol lle bynnag mae gofynion gweithredol yn galw am hynny. Os ydynt yn cael eu mobilieddio byddant yn cyflawni'r un rolau i'r un safonau uchel â'u cymheiriaid Parhaol. Byddant hefyd yn derbyn yr un hyfforddiant ac yn datblygu'r un sgiliau.

**Aelodau Gwirfoddol Arferol Wrth Gefn y Lluoedd Arfog**,er bod Aelodau Gwirfoddol wrth gefn yn hyfforddi am flynyddoedd lawer ar gyfer dyletswydd actif, dim ond pan fo'n hollol angenrheidiol y cânt eu mobilieiddio. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn ((MoD) yn defnyddio 'Detholiad Deallus', sef y broses o adnabod unigolion bodlon ac sydd ar gael ar gyfer penodiadau penodol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori gyda chyflogwr yr aelod wrth gefn.

Mae pob Aelod Gwirfoddol Wrth Gefn yn gwneud ymrwymiad difrifol i hyfforddiant. I'r mwyafrif ohonynt bydd hyn tua 30 diwrnod y flwyddyn, yn cynnwys rhai nosweithiau ar ganol yr wythnos, rhai penwythnosau ac un cyfnod hyfforddiant parhaus o 15 diwrnod (Gwersyll Blynyddol).

Mae **Aelodau Llawn-amser Wrth Gefn** (FTRS) yn rhoi cyfle i Aelodau Wrth Gefn wneud cais am swydd lawn-amser am gyfnod penodol (mae hyn yn wahanol i fyddino).

Mae **Ymrwymiad Dyletswyddau Ychwanegol** (ADC) yn rhoi cyfle i Aelodau Wrth Gefn wneud gwaith rhan-amser gyda'r Lluoedd Arfog. Gallai hyn fod gydag Uned Barhaol neu Uned Wrth Gefn, ond mae'n fwy tebygol o fod mewn sefydliad pencadlys. Weithiau gall ADC ffurfio rhan o drefniant rhannu-swydd. Yr ymrwymiad lleiaf yw 13 wythnos – o leiaf un diwrnod yr wythnos drwy gydol y cyfnod hwn.

Mae gan **Aelodau Wrth Gefn Parodrwydd Uchel** (HRR) sgiliau penodol y gall y Lluoedd Arfog weithiau fod eu hangen ond ar fyr rybudd. Mae'n rhaid i aelodau wrth gefn wirfoddoli am statws Parodrwydd Uchel, ac os oes ganddynt swydd lawn-amser (neu'n gweithio fwy na dau ddiwrnod yr wythnos) bydd hefyd angen iddynt gael caniatâd ysgrifenedig eu cyflogwr. Bydd y caniatâd hwn ar ffurf cytundeb a gaiff ei adolygu'n flynyddol. Os cânt eu byddino, gellir gofyn i HRR wasanaethu am gyfnod o hyd at naw mis.

Mae **Aelodau wrth Gefn a Noddir** yn galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ymrwymo i gontract amddiffyn ar amod fod gan gyfran a gytunwyd o weithlu y contractwr gyfrifoldeb Wrth Gefn. Gall yr aelodau wrth gefn hyn gael eu hyfforddi a'u galw allan i ymgymryd â'r dasg a gontractiwyd fel aelodau o'r Lluoedd Arfog.

**Byddino** yw'r broses o alw aelodau wrth gefn i wasanaeth llawn-amser i wasanaethu wrth ochr y Lluoedd Arfog Parhaol ar weithrediadau. Mae pob aelod wrth gefn yn ymroddedig i'r posibilrwydd o gael eu byddino os oes angen. Fel arfer mae angen iddynt wasanaethu dramor ond mae'n bosibl y byddai angen iddynt wasanaethu'r Deyrnas Unedig, er enghraifft pe byddai argyfwng cenedlaethol.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor/Ysgol yn cefnogi staff sy'n aelodau wrth gefn o'r lluoedd arfog. Mae'r lluoedd wrth gefn yn cynnwys Llu wrth Gefn y Llynges Fernhinol, Llu wrth Gefn y Môr-filwyr Brenhinol, Llu wrth Gefn y Fyddin a Llu wrth Gefn yr Awyrlu Brenhinol.

Mae'r Cyngor/Ysgol yn cydnabod y gellir trosglwyddo llawer o'r sgiliau y mae aelodau wrth gefn yn eu hennill yn ystod eu hyfforddiant i'r gweithlu. Bydd y Cyngor/Ysgol yn cynorthwyo'r aelodau wrth gefn cyn belled ag sy'n bosibl drwy roi ystyriaeth i ofynion absenoldeb arferol neu'r angen i ddiwygio patrymau gwaith.

Mae'n rhaid i'r polisi hwn gael ei groes-gyfeirio gyda holl bolisïau eraill perthnasol y Cyngor/Ysgol.

# 2. Beth mae'r Polisi yn ei Gynnwys

Mae'n rhaid gwneud pob cais am absenoldeb aelodau wrth gefn y lluoedd arfog dan ddarpariaethau'r polisi hwn. Atodir llif siart proses yn atodiad 1.

# 3. Egwyddorion Arweiniol

Mae angen i aelodau wrth gefn hysbysu'r Cyngor/Ysgol eu bod yn aelod o'r lluoedd wrth gefn a'r llu penodol y maent yn perthyn iddo. Bob blwyddyn wyliau, bydd cyflogeion llawn-amser sy'n aelodau wrth gefn yn cael 15 diwrnod (111 awr), pro rata ar gyfer cyflogeion rhan-amser, o absenoldeb ychwanegol ar dâl i'w helpu i gyflawni eu hymrwymiadau i'r lluoedd wrth gefn. Dylai'r aelod wrth gefn wneud y cais dan y Cynllun Caniatâd i fod yn Absennol (gweler atodiad 2), i'w Rheolwr Llinell/Pennaeth Ysgol yn dweud fod yr absenoldeb ar gyfer 'hyfforddiant milwrol'. Er y bydd y Cyngor/Ysgol yn gwneud ei orau i gytuno i unrhyw geisiadau i ddefnyddio'r absenoldeb ychwanegol hwn, ni all y Cyngor/Ysgol; warantu y rhoddir blaenoriaeth i geisiadau aelodau wrth gefn am absenoldeb ychwanegol. I osgoi aelodau wrth gefn yn methu cymryd amser i ffwrdd pan fo angen, mae'n rhaid iddynt wneud cais am yr absenoldeb ychwanegol cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl iddynt gael eu hysbysu fod angen iddynt gymryd amser i ffwrdd.

Dim ond i gyflogeion sy'n rhoi tystiolaeth fod angen iddynt gymryd yr amser i ffwrdd fel aelod wrth gefn (er enghraifft, llythyr gan eu Swyddog Gorchymyn) wrth drefnu eu habsenoldeb y mae'r cynnig hwn ar gael. Ni fedrir defnyddio'r cynnig ar gyfer dyddiau pan nad yw'r aelod wrth gefn yn ymgymryd â gweithgareddau aelod wrth gefn neu i adfer o ofynion corfforol penwythnos i ffordd gyda'r lluoedd wrth gefn.

Mae'n rhaid i holl ddyddiadau absenoldeb gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan Reolwr Llinell/Pennaeth Ysgol yr aelod wrth gefn.

# 4. Byddino Aelodau wrth Gefn

Mae pob un o'r Lluoedd Wrth Gefn yn dilyn gweithdrefn gaeth wrth fyddino aelodau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys hysbysu'r Cyngor/Ysgol a'r aelod wrth gefn am y dyddiad mae angen iddynt adrodd am ddyletswydd a chyfnod o hyfforddiant cyn byddino.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn anelu rhoi o leiaf 28 diwrnod o hysbysiad byddino, er y gall fod yn llai weithiau am resymau gweithredol. Nid oes unrhyw ofyniad statudol am isafswm cyfnod byddino.

Dylai'r aelod wrth gefn hysbysu eu Rheolwr Llinell/Pennaeth Ysgol ar ôl iddynt gael eu galw. Bydd y Cyngor/Ysgol hefyd yn cael pecyn gwybodaeth sy'n nodi dyddiad a chyfnod posibl y byddino yn ogystal â'u hawliau statudol, cyfrifoldebau a sut i wneud cais am gymorth ariannol. Mae gan yr aelod wrth gefn a hefyd y Cyngor/Ysgol yr hawl i wneud cais am eithrio neu ohirio byddino mewn rhai amgylchiadau eithriadol.

# 5. Apeliadau am Eithrio neu Ohirio

Mae'r Cyngor/Ysgol yn sylweddoli y gall wneud cais am eithriad neu ohirio byddino dan y Ddeddf Lluoedd wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985, os yw'n credu bod absenoldeb yr aelod wrth gefn ar wasanaeth milwrol yn debygol o wneud "niwed difrifol" i'r Cyngor/Ysgol. Mae'r Cyngor/Ysgol yn sylweddoli fod y meini prawf ar gyfer eithrio neu ohirio o fyddino yn gaeth a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yn ceisio eithrio neu ohirio. Mae'n ofynnol i'r cais am eithrio gael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaeth/Pennaeth Ysgol.

Mae'n rhaid cyflwyno cais y Cyngor/Ysgol i'r Swyddog Dyfarnu perthnasol (y person a nodir yn yr hysbysiad galw-allan neu'r Swyddog Dyfarnu yn y ganolfan byddino) o fewn y cyfnod o saith diwrnod yn union yn dilyn y dyddiad pan wnaeth y cyflogai dderbyn y broses byddino.

# 6. Hawliau Aelodau wrth Gefn yn ystod Byddino

Nid oes unrhyw ofyniad i'r Cyngor/Ysgol dalu i'r aelod wrth gefn yn ystod eu habsenoldeb ar weithrediadau milwrol. Yn ystod y cyfnod hwn bydd yr aelod wrth gefn yn derbyn tâl gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ynghyd â dyfarniad safonol i wneud lan unrhyw wahaniaeth (hyd at y terfyn statudol) rhwng eu tâl gwasanaeth ac enillion wythnosol cyfartalog arferol.

Mae gan yr aelod wrth gefn a gaiff ei alw lan hawl i barhau'n aelod o'u cynllun pensiwn galwedigaethol. Os ydynt yn cytuno i barhau i dalu eu cyfraniadau eu hunain, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn talu am gyfraniadau'r cyflogwr y byddai'r Cyngor/Ysgol wedi eu gwneud.

Os yw byddino yr aelod wrth gefn yn dechrau neu'n gorffen ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn wyliau flynyddol, yna caiff yr hawl i wyliau blynyddol am y flwyddyn honno ei gyfrif ar sail pro-rata.

# 7. Dadfyddino Aelodau wrth Gefn

Cyn dychwelyd gartref, bydd aelodau wrth gefn yn dilyn proses o 'ddadebru' gyda'u huned mewn amgylchedd a gaiff ei rheoli am hyd at bedwar diwrnod. Yma, byddant yn cael amser i ymlacio yn ogystal â chyfres o friffiadau i helpu eu paratoi ar gyfer bywyd sifil.

Mae hyn yn cynnwys:

- Diweddariad ar y sylw yn y wasg am y gwrthdaro y buont yn rhan ohono, fel y gwyddant beth mae pobl gartref wedi ei glywed amdano.
- Cyflwyniad ar Anhwylder Straen Ôl-Drawmatig gan staff meddygol a hyfforddwyd yn arbennig, a'r cyfle ar gyfer cyfweliadau un-i-un.

Unwaith y bydd aelod wrth gefn yn cyrraedd yn ôl yn y Deyrnas Unedig, byddant yn mynd i'w canolfan dadfyddino, lle mae'r broses o ailintegreiddio yn parhau. Yn ogystal â'r gweithdrefnau gweinyddol ôl-weithredol angenrheidiol, tebyg i roi eu hiwnifform yn ôl, byddant yn cael cyfres o asesiadau meddygol ac yn derbyn briffiadau pellach ar straen, eu dychwelyd i'r gwaith, canllawiau ar lesiant a chyngor. Mae sesiynau un-i-un ac arbenigol ar gael drwy gydol gweddill eu hamser mewn gwasanaeth, a gall barhau cyhyd ag sydd angen.

Cânt wedyn eu dadfyddino'n ffurfiol a byddant yn rhydd i ddechrau eu habsenoldeb ôl-weithredol. Mae gan bob aelod wrth gefn hawl i gyfnod absenoldeb a byddant yn parhau i gael eu talu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystod y cyfnod hwn. (Mae hyn fel arfer yn gweithio mas ar gyfartaledd o tua 30 diwrnod, yn cynnwys unrhyw wyliau blynyddol y maent wedi ei grynhoi yn ystod gwasanaeth). Mae absenoldeb ôl-weithredol yn galluogi'r aelod wrth gefn i ailaddasu'n llawn a pharatoi ar gyfer bywyd sifil.

Bydd cysylltiad rheolaidd gyda'u cyflogwr yn ystod eu habsenoldeb ôl-weithredol yn helpu i hwyluso eu symud yn ôl i waith. Mae'r rhan fwyaf o aelodau wrth gefn yn ei chael yn ddefnyddiol os caiff rheolwyr a chydweithwyr eu hysbysu yn ystod y cyfnod hwn ac i gael cyfweliad anffurfiol gyda'u rheolwr llinell/pennaeth ysgol pan ddychwelant. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siarad am eu profiadau a'u diweddaru ar unrhyw newidiadau allweddol o fewn y Cyngor/adran.

Beth bynnag yw hyd y gweithredu milwrol, mae gan yr aelod wrth gefn a fyddinwyd yr hawl i gael ei dderbyn yn ôl i'w swydd flaenorol o fewn chwe mis o ddadfyddino ac ar delerau ac amodau heb fod yn ddim llai ffafriol na'r rhai a fyddai wedi bod yn eu lle cyn cael eu galw lan.

Mae'n gyfrifoldeb ar y Cyngor i dderbyn y deiliad swydd yn ôl i gyflogaeth ar y cyfle cyntaf unwaith y cafodd eu hysbysu ei fod ar gael. Dylid derbyn y cyflogai yn ôl i''r swydd y cafodd ei gyflogi ynddi cyn cael eu galw lan ac ar delerau ac amodau tebyg i'r rhai a fyddai wedi gweithredu pe na fyddai wedi ei alw lan, os nad yw hynny'n rhesymol ac ymarferol. Bydd angen i benaethiaid gwasanaeth roi tystiolaeth pam na fedrant ailosod yr aelod wrth gefn i'w swydd flaenorol.

Gall aelodau wrth gefn gael eu cynnwys ar y rhestr ad-leoli, os oes angen, oherwydd na fedrant ddychwelyd i'w swyddi blaenorol. Dim ond lle mae adolygiad/ailstrwythuro gwasanaeth neu angen adrannol y gall aelodau wrth gefn gael eu hystyried ar gyfer dibenion dileu swyddi. Ni ddylai meini prawf dileu swydd wahaniaethu yn erbyn aelodau wrth gefn ar sail eu gwasanaeth wrth gefn neu eu hatebolrwydd galw-lan.

Ni fedrir terfynu cyflogaeth aelod wrth gefn ar sail eu dyletswyddau milwrol neu eu bod yn agored i gael eu byddino. Byddai gwneud hynny yn drosedd dan adran 17 Deddf Lluoedd wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985.

Os nad yw aelod wrth gefn yn hapus gyda'r cynnig o gyflogaeth arall mae'n rhaid iddynt ysgrifennu at y Pennaeth Datblygu Sefydliadol yn dweud pam fod achos rhesymol iddynt i beidio ei dderbyn. Os yw'r aelod wrth gefn yn credu fod ymateb y Cyngor/Ysgol i'w cais yn gwadu eu hawliau dan Ddeddf Lluoedd wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985, gellir gwneud cais i gorff allanol a elwir y "Pwyllgor Ailosod" ar gyfer ei asesu. Rhoddir ystyriaeth i gais yr aelod wrth gefn ac, os caiff ei dderbyn, gall wneud gorchymyn am ailosod a/neu iawndal.

Os yw'r Cyngor/Ysgol yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Ailosod gallant wneud apêl bellach.

I weithredu'r hawl i gael eu derbyn yn ôl, mae'n rhaid i'r aelod wrth gefn ysgrifennu at y Cyngor/Ysgol dim yn hwyrach na'r trydydd dydd Llun ar ôl dadfyddino yn cadarnhau eu bwriad i ddychwelyd i'r gwaith o fewn y 13 wythnos ddilynol. Gall y cyfnod dechreuol o 13-wythnos gael ei adnewyddu am 13 wythnos bellach os yw amgylchiadau tebyg i salwch neu anaf yn atal yr aelod wrth gefn rhag dychwelyd yn ystod y cyfnod dechreuol. Fodd bynnag, mae'r aelod wrth gefn yn colli'r hawl i ddychwelyd i'r Cyngor/Ysgol os yw'n methu gwneud hynny o fewn 26 wythnos o gael eu dadfyddino.

Unwaith y cafodd yr aelod wrth gefn ei dderbyn yn ôl, bydd y Cyngor/Ysgol yn parhau i'w cyflogi yn yr un swydd os yn bosibl ac ar yr un telerau ac amodau am:

- O leiaf 13 wythnos yn dilyn derbyn yn ôl, os cafodd y cyflogai ei gyflogi am lai na 13 wythnos cyn byddino.
- 26 wythnos yn dilyn derbyn yn ôl, os cyflogid am fwy na 13 wythnos ond llai na 52 wythnos cyn byddino.
- 52 wythnos yn dilyn derbyn yn ôl, os cyflogwyd yr aelod wrth gefn am gyfnod olynol o 52 wythnos o leiaf cyn byddino.

Ni chaiff parhad cyfnod cyflogaeth yr aelod wrth gefn ei dorri gan gyfnod o fyddino gorfodol neu wirfoddol, os caiff ei dderbyn yn ôl i'w swydd flaenorol o fewn chwe mis o ddadfyddino.

Wrth gyfrif cyfanswm cyfnod cyflogaeth barhaus y cyflogai, ni fydd y Cyngor/Ysgol yn cyfrif y nifer y dyddiau fydd yn y cyfnod rhwng y dyddiad y cafodd yr aelod wrth gefn ei alw lan ar gyfer gweithrediadau milwrol a'r diwrnod cyn iddo ddychwelyd i waith.

Er enghraifft, os cafodd aelod wrth gefn ei alw am ddyletswydd yn Ionawr 2019 am 52 wythnos a chyn cael eu galw lan fod ganddo 4 blynedd 26 wythnos o wasanaeth. Caiff ei dderbyn yn ôl i'w swydd flaenorol pan mae'n dychwelyd i'r gwaith yn Ionawr 2020. Bydd yn parhau i fod â ddim ond 4 blynedd a 26 wythnos o wasanaeth parhaus.

# 8. Cymorth Ariannol

Ni chaiff cymorth ariannol ar gyfer cyflogwyr pe byddai cyflogai sy'n aelod wrth gefn yn cael ei fyddino (ni chaiff cymorth ariannol ei ddarparu am y 15 diwrnod hyfforddiant) ei reoli gan Reoliadau Lluoedd wrth Gefn (Galw allan ac ail-alw) 2006 (fel y diwygiwyd Mawrth 2015). Mae hyn yn cynnwys costau ychwanegol uwchben enillion arferol aelod wrth gefn yn gysylltiedig gyda chyflogi rhywun i gymryd lle'r cyflogai hynny. Mae tri math o ddyfarniad ar gael:

**Costau unigol**

- Ffioedd asiantaeth, os defnyddir asiantaeth recriwtio neu asiantaeth cyflogaeth i ganfod gweithiwr dros dro, neu gostau hysbysebu.
- Nid oes uchafswm ariannol ar hawliadau, ond mae'n rhaid i unrhyw hawliad gael ei gefnogi gan ddogfennau perthnasol.
- Costau trosglwyddo pump diwrnod cyn byddino a phum diwrnod ar ôl dychwelyd i'r gwaith (yn amodol ar yr uchafswm dyddiol ar yr hawliad sef cyfradd tâl dyddiol y cyflogai ynghyd â 110 (fesul diwrnod).
- Costau dillad arbenigol, hyd at 75% (hyd at uchafswm o £300) ar gyfer prynu dillad arbenigol ar gyfer person sy'n cymryd lle aelod wrth gefn yn ystod cyfnod o fyddino.
- Costau hyfforddi hyd at £2,000 o gostau'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer cael rhywun i lanw dros yr aelod wrth gefn yn ystod byddino, i sicrhau eu bod mor effeithiol ag sydd modd yn y swydd.

**Costau sy'n ailddigwydd**

- Costau goramser, os yw cyflogeion eraill yn gweithio goramser i lanw dros waith yr aelod wrth gefn (gan y swm y mae costau o'r fath yn fwy nag enillion yr aelod wrth gefn).
- Costau llenwi'r swydd dros dro (gan y swm y mae costau o'r fath yn fwy nag enillion yr aelod wrth gefn).

Yr uchafswm hawliad sydd ar gael yw £110 fesul diwrnod (£40,000 y flwyddyn). Gellir hawlio ar gyfer pob diwrnod gwaith arferol y mae'r aelod wrth gefn i ffwrdd ar wasanaeth. Mae'n rhaid gwneud cais am gostau unigol a chostau sy'n ailddigwydd o fewn 4 wythnos o ddiwedd gwasanaeth llawn-amser yr aelod wrth gefn.

**Dyfarniad hyfforddiant**

Os yw'n rhaid i aelod wrth gefn sy'n dychwelyd gael hyfforddiant ychwanegol fel canlyniad uniongyrchol i'w byddino (heb gynnwys hyfforddiant cyffredinol), yna gall y Cyngor/Ysgol wneud cais am y cymorth ariannol.

# 9. Ôl-ofal

Pan fydd aelod wrth gefn yn dychwelyd i'r gwaith, mae'n hanfodol fod yr adran yn sicrhau ailintegreiddio llyfn i'r gweithle/tîm. Bydd hyn yn golygu rhoi ystyriaeth i:

- Yr angen i ddiweddaru ar newidiadau a datblygiadau yn y maes gwasanaeth/Cyngor.
- Yr angen i gynnig hyfforddiant gloywi penodol pan ofynnir am hynny/ystyrir yn angenrheidiol.
- Gall fod angen cyfnod o hyfforddiant sgiliau i gynorthwyo gydag agweddau newydd y swydd lle mae dyletswyddau'r swydd wedi newid ers byddino .
- Amser rhesymol i ffwrdd i geisio triniaeth therapiwtig os oes angen.

Er mwyn cefnogi'r aelod wrth gefn yn ôl i'r gweithle, gall fod angen i'r adran weithredu mesurau cefnogol a gall fod angen cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol. I gael mwy o arweiniad, gofynnwch am gyngor gan Datblygu Sefydliadol, yn unol gyda pholisïau perthnasol y Cyngor/ysgol

Gellir hefyd gael mwy o ganllawiau a gwybodaeth gan y dilynol

- Cadwyn gorchymyn yr aelod wrth gefn – Gweinyddiaeth Uned, Staff Llesiant, Bugeiliol a Meddygol
- Gwasanaeth Personol a Theulu y Llynges a Llesiant Môr-filwyr (www.rncom.mod.uk)
- Gwasanaethau Llesiant y Fyddin (www.army.mod.uk/welfare-support)
- Forces Help RAF (www.rafcom.co.uk)
- Rhaglen Iechyd Meddwl Cyn Aelodau ac Aelodau wrth Gefn y Lluoedd Arfog (mewn partneriaeth gyda'r GIG cyfeirir drwy feddyg teulu0800 032 6258
- Veterans UK (www.veterans-uk.info)
- Confederation of Service and Ex Service Organisations (www.cobseo.org.uk)


# 10. Gwybodaeth Bellach

Gall rheolwyr gael mwy o wybodaeth gan SaBRE ('Supporting Britain's Reservists and Employers'). Gallwch gysylltu â SaBRE am unrhyw fater sy'n gysylltiedig a chefnogi aelodau wrth gefn Prydain a chyflogwyr drwy eu llinell gymorth ar 0800 389 5459 neu drwy e-bost drwy www.sabre.mod.uk.

# 11. Adolygu'r Cynllun

Caiff y cynllun hwn a'r weithdrefn eu hadolygu pan yn briodol. Ymgynghorir gyda phawb sy'n berthnasol os bydd unrhyw ddiwygiadau. Fodd bynnag, yn achos diwygiadau neu ddiweddariadau yn gysylltiedig â gofynion deddfwriaethol nad ydynt yn newid egwyddor gyffredinol y polisi, caiff y cynllun ei ddiwygio a'i ailgyhoeddi.

# Atodiad1: Siart Llif y Broses (yn Saesneg)



# Aelodau wrth Gefn

## Cais am Ganiatâd am Absenoldeb

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

### ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL (I'W LLENWI GAN Y CYFLOGAI)

ADR

| | |
|---|---|
| Enw Llawn | |
| Cyfeiriad Cartref | |
| Swydd | |
| Man Gwaith | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif Staff | | Rhif Yswiriant Gwladol | |

### ADRAN 2 – MANYLION CYFNOD ABSENOLDEB (I'W LLENWI GAN Y CYFLOGAI)

| Dyddiadau o | Dyddiadau i | Amser a Geisir (oriau/dyddiau llawn) | Rheswm an Gyfnod Absenoldeb |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod Cyflogai | | Dyddiad: | |

### ADRAN 3 – I GAEL EI LLENWI GAN Y RHEOLWR LLINELL/PENNAETH YSGOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymeradwyo cais | | Gwrthod cais | |
| Llofnod Rheolwr Llinell/Pennaeth Ysgol | | Dyddiad | |

### ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL YN UNIG

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gohebiaeth | | Llofnod Awdurdodedig Datblygu Sefydliadol | |
| Diweddaru System | | Dyddiad | |

**DYLID LLENWI'R FFURFLEN HON A'I DYCHWELYD I HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk**

Ionawr 2020